



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 16 Gorffennaf 2020

GAN Rebecca Evans AS, Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Y Ddeddf sy'n cael ei diwygio:

Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach 2011/1631.

Effaith yr OS ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach 2011 yn nodi'r gofyn ar gyrff cyhoeddus a chyfleustodau i ystyried effeithiau'r cerbydau cludiant ffyrdd y maent yn eu prynu neu'n eu prydlesu ar yr amgylchedd ac o ran ynni eu hoes, os bydd eu caffael yn croesi trothwyon penodol.

Pwrpas y diwygiadau

Ceir nifer o ddarpariaethau yn Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach 2011/1631 a allai fod yn ddiffygiol pan ddaw'r Rheoliad yn gyfraith yr UE a ddargedwir.

Pwrpas y diwygiadau hyn yw cywiro'r diffygion hynny h.y. newid y cyfeiriadau at Aelod-wladwriaethau.

T

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol a atodir, sy'n esbonio effaith yr OS, ar gael yma:

<https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-cleaner-road-transport-vehicles-amendment-eu-exit-regulations-2020>

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim wedi'i nodi.

Pam rhoi cydsyniad

Gan fod y cywiriadau sy'n cael eu cynnig yn rhai technegol eu natur, nid oes gwahaniaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran eu polisi ar y diwygiadau ac ni ystyrir bod sylwedd y diwygiadau'n wleidyddol sensitif. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd arnynt.